

Trosolwg o'r cymorth sydd ar gael: gofal plant a gwaith chwarae

Trosolwg o'r cymorth yn unig yw hwn ac mae'n cynnwys gwybodaeth am gymorth a allai fod ar gael ar hyn o bryd. Cliciwch ar yr hypergysylltiadau/cysylltwch â'r sefydliadau perthnasol am fwy o wybodaeth.

Gofal plant

Denu/recriwtio staff	Cadw/llesiant staff
<p><u>Gofal Cymdeithasol Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none">• Ymgyrch denu, recriwtio a chadw staff Gofalwn Cymru: astudiaeth achos yn canolbwyntio ar ofal plant a'r blynyddoedd cynnar (mae'n cynnwys rolau chwarae)• Adnoddau blynyddoedd cynnar a gofal plant (gan gynnwys canllawiau ar 'recriwtio'n dda')• Rhaglen Llysgenhadon Gofalwn Cymru• Porth swyddi Gofalwn Cymru• Gwybodaeth ac adnoddau sy'n ymwneud â chymwysterau a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan	<ul style="list-style-type: none">• Ymgyrch #diolch – mae plant a rhieni yn cydnabod ac yn diolch i ymarferwyr am bopeth a wnânt drostynt• Hÿb Rheolwyr Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar• Rhwydweithiau cymheiriaid• Cardiau gyrfa• Cardiau gweithwyr gofal i helpu gweithwyr i gael gostyngiadau prisiau ac amser siopa wedi'i ddiogelu. Cymorth lles ar gael drwy'r cardiau• Tudalen we sy'n cynnwys gwybodaeth am iechyd a lles• Cylchlythyr misol• Adnoddau, gan gynnwys egwyddorion datblygiad proffesiynol parhaus
<p><u>CWLWM¹ Blynyddoedd Cynnar Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none">• Hysbysebu swyddi ar wefan Blynyddoedd Cynnar Cymru• Digwyddiadau/gweithdai ar-lein i gefnogi recriwtio	<ul style="list-style-type: none">• Cynnig aelodaeth• Cefnogi sgiliau arwain ar gyfer y sector, gan gynnwys hyfforddiant a rhwydweithio• Hybu dysgu proffesiynol / safonau• Digwyddiad gwobrwyo blynyddol• Cyfeirio at yr arian grant sydd ar gael• Cymorth i aelodau – gwybodaeth, hyfforddiant, rhwydweithio

¹ Mae gofyn bod yn aelod i gael gafael ar rywfaint o'r cymorth drwy CWLWM

- Cylchgrawn chwarterol gydag erthyglau am gymorth busnes ac arweinyddiaeth – cymorth rheolaidd dros e-bost

CWLWM: Y Mudiad Meithrin

- Cynllun Meithrin Gyrfa (Adeiladu gyrfa)
- Recriwtio a hyfforddi graddedigion newydd i ymuno â Phwyllgorau Rheoli Gwirfoddol lleol
- Porth swyddi
- Swyddog Cymorth i gynorthwyo gyda'r adran Ymchwil a Datblygu ac Adnoddau Dynol i roi cyngor ar faterion cymhleth
- Cyfle prentisiaeth i gymhwyso fel ymarferydd Lefel 3 Mewn Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygiad ar gyfer staff mewn meithrinfeydd dydd preifat ac ycyfrwng Cymraeg, ac ysgolioncyfrwng Cymraeg
- Hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig
- Cynllun y Coleg Meithrin: denu mwy o bobl ifanc i'r sector cyfrwng Cymraeg
- Ymgyrch i hyrwyddo gyrfaedd a chymwysterau Cymraeg
- Cynnig aelodaeth, yswiriant a chymorth busnes i Gylchoedd a meithrinfeydd gyda phwyslais ar gefnogi Pwyllgorau Rheoli Gwirfoddol fel cyflogwyr
- E-fwletinau wythnosol
- Mynediad at hyfforddiant 'Academi' DPP am ddim i holl staff y Mudiad Meithrin
- Grant Agor Cylch Ti a Fi - £1,000 i sefydlu Cylch Ti a Fi newydd neu i helpu unrhyw Gylch Ti a Fi sydd ar gau ar hyn o bryd (ac sydd wedi bod ar gau ers o leiaf Ebrill 2020) i ailagor. Gellir defnyddio'r swm i dalu am unrhyw gostau rhedeg, felly gall dalu cyflog Arweinydd, costau rhentu neu offer. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar gyfer cyllid grant arall

CWLWM: [Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs](#)

- Swyddi gwag ar y wefan
- Cyfleoedd prentisiaeth i gymhwyso mewn gwaith chwarae
- DPP, gweithdai ymarferol a digwyddiadau rhwydweithio
- Cefnogi meithrinfeydd dydd cyfan i ddarparu gwaith chwarae o safon
- Cymorth i gael gafael ar gyllid. E-newyddion misol am gyllid
- Cymorth busnes pwrpasol
- Gweithio gyda Lleoliadau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau marchnata effeithiol drwy gymorth busnes ac adnoddau sy'n benodol i'r sector, i hyrwyddo manteision chwarae, y ddarpariaeth sydd ar gael, y

cynlluniau cymorth ariannol sydd ar gael, cyfleoedd recriwtio

CWLWM: [NDNA Cymru](#)

- Prosiect Mae Gofal Plant yn Gweithio i gefnogi darparwyr (gan gynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg) gyda phroblemau recriwtio sydd hefyd yn dod ag unigolion sydd â'r agweddau cywir i'r sector gan roi llwybr a chymorth iddynt ennill cymwysterau cydnabyddedig i barhau â gyrfa yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.
- Cyrisiau hyfforddi am ddim neu â chymhorthdal i aelodau. Arweinyddiaeth a rheoli, ymarfer gofal plant a chymwysterau gorfodol, lles staff a phlant i annog darparwyr i barhau i gynnig cyfleoedd dysgu pellach i ymarferwyr i gefnogi cadw staff
- Cynnig aelodaeth i gefnogi cynaliadwyedd a sicrhau y gall y sector dderbyn cyfathrebiadau parhaus
- Gostyngiadau i aelodau
- Parth Busnes y Blynyddoedd Cynnar: pecyn cymorth busnes meithrin a gofal plant ar-lein AM DDIM i annog cynaliadwyedd
- Adnoddau a pholisïau lles
- Cyfarfodydd rhwydwaith lleol rhwng darparwyr.
- Hysbysebu darpariaeth a swyddi gwag staff drwy eu gwefan a bwletinau wythnosol a sesiynau sgiliau busnes.

CWLWM: [PACEY](#)

- 'Astudiaethau achos 'Sbotolau' a gwybodaeth ac awgrymiadau i hyrwyddo gweithio ym maes gofal plant
- Tudalen Facebook Camau Cyntaf i Warchod Plant
- Cyfleoedd prentisiaeth
- Business Smart - help i ymarferwyr gofal plant newydd a phresennol ddatblygu a chynnal busnes cynaliadwy, gan gynnwys cyfrifiannell costau
- Atgyfeirio at Cyllid gofal plant yng Nghymru
- Fforymau rhithwir gwarchodwyr plant bob deufis
- E-gylchlythyr misol i aelodau
- Canolfan ymarfer a dysgu ar y wê i aelodau
- Adnoddau i aelodau gan gynnwys mynediad at gontractau sy'n benodol i Cymru, ffurflenni cofnodi plant, llyfrau cyfrifon ac ati.
- Cymorth DPP

Gwaith chwarae

Denu staff/Recriwtio	Cadw/Lles
<p><u>Chwarae Cymru</u></p> <ul style="list-style-type: none">• Gwybodaeth a dolenni at gymwysterau Gwaith Chwarae a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol• Cynnal y Rhwydwaith Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer rhannu a thrafod yr holl faterion sy'n ymwneud ag Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan gynnwys datblygu'r gweithlu• Canllawiau gwybodaeth a llyfrynnau i hyrwyddo gwaith chwarae fel maes gwaith hanfodol/gwerthfawr• Hysbysebu swyddi gwag yn rhad ac am ddim ar wefan Chwarae Cymru Play Wales Chwarae Cymru• Gwybodaeth ar y wefan am rolau swyddi gwaith chwarae	<ul style="list-style-type: none">• Atgyfeirio at grantiau/cymorthariannol sydd ar gael• Astudiaethau Achos ar Weithwyr Chwarae mewn rolau amrywiol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwaith chwarae. Sbotolau Ar.....yn ymddangos yng nghylchgrawn chwarterol 'Chwarae Dros Gymru• Cyfleoedd DPP pwrpasol• Cymorth uniongyrchol ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored• Calendr digwyddiadau – hyfforddiant, seminarau, sesiynau gwybodaeth, cynadleddau
<p>CWLWM: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs</p> <ul style="list-style-type: none">• Hyrwyddo Gwaith Chwarae fel proffesiwn drwy farchnata a chyfathrebu e.e. Fideos, asedau i hyrwyddo manteision chwarae a gofal plant oedran ysgol• Hysbysebu swyddi gwag drwy wefan a'r cyfryngau cymdeithasol• Cyfleoedd prentisiaeth i gymhwyso mewn gwaith chwarae• Hyrwyddo cymwysterau a chyfleoedd DPP i recriwtio, ailhyfforddi, dathlu a chodi proffil gweithwyr chwarae• Bwletin wythnosol gan gynnwys swyddi gwag.	<ul style="list-style-type: none">• Cynnig aelodaeth• Cymwysterau, DPP, gweithdai ymarferol a digwyddiadau rhwydweithio• Cymorth busnes pwrpasol• Cymorth i gael gafael ar gyllid drwy dempledidi defnyddiol, e-bost, gweminarau wedi'u recordio ymlaen llaw a gweminarau byw. E-newyddion ariannu misol• Cyfarwyddyd gan dîm o Swyddogion Datblygu Busnes Gofal Plant ar gynllunio busnes, ehangu, cofrestru, sicrhau ansawdd a phob agwedd arall ar ddarpariaeth Clwb Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol• Gweithio gyda Lleoliadau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau marchnata effeithiol drwy gymorth busnes ac

adnoddau sy'n benodol i'r sector, i hyrwyddo manteision chwarae, y ddarpariaeth sydd ar gael, y cynlluniau cymorth ariannol sydd ar gael, cyfleoedd recriwtio

- Cymorth i wella ymarfer drwy weminarau ar gydraddoldeb hiliol, iechyd meddwl plant, ymwybyddiaeth drawsryweddol, cyngor ar sut i gefnogi'r gweithlu, cylchlythyrau ag erthyglau ar faterion staffio, cynhwysiant ac iechyd meddwl.
- Hyrwyddo lles drwy hyfforddi'ch staff eich hun ar goetsio, cydraddoldeb hiliol, niwroamrywiaeth, ymwybyddiaeth drawsryweddol, er mwyn cefnogi'r gweithlu'n well

CWLWM: NDNA

- Hyrwyddo ac annog ymarferwyr y Blynnyddoedd Cynnar i gymhwyso mewn Gwaith Chwarae a

Trosolwg o'r cymorth a gynigir gan awdurdodau lleol

Gallwch [ddod o hyd i'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol ar wefan Llywodraeth Cymru](#). Gall fod gwahaniaethau yn y cymorth sydd ar gael i'r Sector Gofal Plant, Gwaith Chwarae yng Nghymru ar lefel awdurdod lleol. Holwch eich [awdurdod lleol](#) i weld beth sydd ar gael yn eich ardal chi.

Denu staff/Recriwtio	Denu staff/Recriwtio
Gwarchodwyr plant <ul style="list-style-type: none">• Cyngor, canllawiau a gwybodaeth• Arian grant ar gyfer dechrau busnes• Pontio i'r cyrsiau gofal plant• Cymorth ar gyfer ymgysylltu cynnar• Sesiynau briffio rhagarweiniol a chymorth i cofrestru• Ymgyrchoedd recriwtio ac ymgysylltu (cyfryngau cymdeithasol)• Cwrs hyfforddi ar-lein am ddim• Hyrwyddo gyrfaedd, hyfforddiant ac atgyfeirio at gyrff cenedlaethol• Cflwyniad i yrfa ym maes gofal plant a	<ul style="list-style-type: none">• Hyfforddiant â chymhorthdal (e.e. diogelu, cymorth cyntaf)• Digwyddiadau gwobrwyo• Cymorth i fusnesau• Cyngor a chymorth ynghylch Cyllid• Rhaglen barhaus o gymorth gan gynnwys DPP
Lleoliadau gofal plant <ul style="list-style-type: none">• Hyfforddiant â chymhorthdal (e.e. diogelu, cymorth cyntaf). Hyfforddiant am ddim (lleoliadau ALI yn unig)• Cymorth grant ar gyfer dechrau busnes neu ar gyfer cynaliadwyedd• Hysbysebu swyddi gwag• Pontio i'r cwrs gofal plant• Ymgyrchoedd/digwyddiadau recriwtio/ymgysylltu (cyfryngau cymdeithasol)• Fideos hyrwyddo/swyddi gwag hyrwyddo/datblygu gwefan i hyrwyddo'r sector (gan gynnwys partneriaid/llwybrau lleol e.e. AB a chyrrff cenedlaethol e.e. Gyrfa Cymru)• Cyngor, arweiniad, hyfforddiant a gwybodaeth gan gynnwys atgyfeirio at gyrff cenedlaethol• Hwyluso cyfleoedd gwirfoddoli/profiad gwaith• Prentisiaethau (lleoliadau ALI yn unig)	<ul style="list-style-type: none">• Cyfleoedd rhwydweithio i drafod trywydd gyrfa• Digwyddiadau Gwobrwyo• Mentrau lles• Cymorth i fusnesau• Cyngor a chymorth ynghylch cyllid• Cymwysterau L2/L3 a ariennir• Cymorth DPP

- Cymorth/cefnogaeth gyda cheisiadau am swyddi
- Cyflwyniad i yrfa ym maes gofal plant a chwarae
- Aseiad cyflwr y sector i ddylanwadu ar yr hyfforddiant/cymorth sydd ei angen

Lleoliadau gwaith chwarae

- **Cyngor, canllawiau a gwybodaeth**
- **Arian grant ar gyfer dechrau busnes**
- **Pontio i'r cwrs gwaith chwarae**
- **Digwyddiadau/cynlluniau/ymgyrchoedd recriwtio sy'n benodol i waith chwarae**
- Prentisiaethau (lleoliadau ALI yn unig)
- Hysbysebu swyddi gwag
- Cyfleoedd cysgodi/gwirfoddoli/profiad gwaith
- Cymwysterau lefel rhagarweiniol - Gwirfoddolwyr m maes chwarae
- Cwrs hyfforddi ar-lein am ddim
- Hyrwyddo hyfforddiant ac atgyfeirio at gyrrff cenedlaethol
- Cyflwyniad i yrfa ym maes gofal plant a chwarae
- **Hyfforddiant â chymhorthdal (e.e. diogelu, cymorth cyntaf)**
- **Hyfforddiant am ddim (lleoliadau ALI yn unig)**
- Cymwysterau L2/L3 a ariennir
- Cyfleoedd i rwydweithio
- Digwyddiadau gwobrwyo
- Mentrau lles
- Mentora
- Cymorth i fusnesau
- Cymorth DPP

*Testun mewn print trwm yn dangos y gefnogaeth a gynigir amlaf gan 18 awdurdod lleol ledled Cymru

Busnes Cymru

- [Cymorth Busnes Darparwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae](#)
- [Gofal Plant | Busnes Cymru \(gov.wales\) Sesiynau arbenigol](#)

Cymru'n Gweithio

Mae [Cymru'n Gweithio](#) a ddarperir gan Gyrfya Cymru, yn darparu cyngor ac arweiniad am ddim i gael pobl i mewn i swyddi a gwella sgiliau drwy gyrsiau a hyfforddiant.

[Maent yn darparu offer fel Canfod Cymorth](#) a bwletinau swyddi gwag wedi'u teilwra i ddewisiadau gyrfya unigolyn (gan gynnwys gofal plant). Maent hefyd yn cyfeirio at swyddi gwag yn y sector

ReAct+ - bydd rhaglen cyflogadwyedd newydd i oedolion yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2022 i gefnogi oedolion di-waith 18 oed a throsodd i gael gwaith cynaliadwy. Bydd y rhaglen yn rhoi cymorth unigol i'r rhai sy'n ceisio ymuno â'r farchnad lafur drwy ddarparu cymorth grant fel hyfforddiant galwedigaethol, gofal plant a chostau teithio.

Bydd ReAct+ yn cynnig grant cymhorthdal cyflog o hyd at £3,000 i gyflogwyr sy'n cyflogi gweithwyr newydd. Mae £1,000 ychwanegol ar gael i'r cyflogwyr hynny sy'n

recriwtio unigolyn sydd rhwng 18 a 24 oed neu sy'n anabl ac ad-daliad o 50% o gost unrhyw hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd sydd ei angen ar y recriwtio newydd (hyd at uchafswm o £1,000) hefyd yn cael ei gynnig.

Gall y rhaglen newydd hefyd gefnogi lleoliadau profiad gwaith lle mae hyn yn rhwystr penodol i gyflogaeth

Pan gaiff ei lansio, bydd gwybodaeth ar gael ar wefan [Cymru'n Gweithio](#)

Mae gan Gyrfa Cymru nifer o gynlluniau sy'n rhoi cyfleoedd i gyflogwyr gefnogi eu cymuned leol drwy gysylltu ag ysgolion. Mae'r cynlluniau'n cynnwys lluo o weithgareddau a fyddai'n helpu i godi ymwybyddiaeth o'r sector, yn enwedig busnesau unigol, i ddenu a recriwtio darpar weithwyr yn y dyfodol a helpu i gynaliadwyedd lleoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Partneriaeth Addysg Busnes \(cynllun PAB\) Gweithio gydag ysgolion | Careers Wales \(llyw.cymru\)](#)
- [Cynllun Partner Gwerthfawr Ysgol | Careers Wales \(llyw.cymru\)](#)
- [Speakers for Schools - Gwybodaeth i gyflogwyr | Careers Wales \(llyw.cymru\) elusen.](#)